


Coed Pentre Ifan

Teithiau Byr



Coed Pentre Ifan

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr

Pellter: 2.1 milltir (3.4 km)

Cludiant cyhoeddus: Dim

Cyfeirnod map: SN093378

Mae yna ddigon o dystiolaeth o anheddiad dynol ar hyd a lled y dirwedd hon ers adegau o gynhanes, o bosib mor gynnar â'r oesoedd Mesolithig neu Oes Canol y Cerrig.

Ychydig gannoedd o lathenni uwchlaw'r coed saif un o safleoedd hynafol enwocaf Cymru, sef siambr gladdu Neolithig neu Oes Newydd y Cerrig Pentre Ifan. Heddiw, mae ei benllech anferth yn gorffwys ar gerrig talsyth anferth ond pan adeiladwyd y siambr tua 5,500 o flynyddoedd yn ôl fe fyddai cerrig y siambr wedi eu claddu o dan bentwr anferth o bridd.

Fe gymerodd filoedd o flynyddoedd i dirwedd Cymru ddod dros yr Oes Iâ diwethaf, tua 11,500 o flynyddoedd yn ôl. Gydag amser, estynnodd goedwig diasiad dros y rhan fwyaf o'r ucheldiroedd yng Nghymru, llawer ohonynt wedi eu clirio'n ddiweddarach gan gymunedau dynol.

Mae rhan o'r coed y mae'r llwybr yn pasio trwyddynt wedi goroesi o'r goedwig hynafol hon, gyda deri sy'n gannoedd o flynyddoedd oed.

Chwiliwch am gyfuniad trawiadol o blanhigion y goedwig hynafol. Mae hen goed a brigiadau caregog y goedwig wedi eu gorchuddio gyda bron i 400 rhywogaeth o gen.

Plannwyd rhannau eraill o'r goedwig gyda chonifferau yn ystod y blynyddoedd ar ôl y rhyfel, ond gyda pheth o'r coed collddail hyn wedi eu gadael yn eu lle. Mae'r hen goedwig nawr yn cael ei hailgynhyrchu trwy gael gwared ar y conifer.

Gwlad y Chwedlau

Cliciwch ar yr eiconau isod am chwedl leol, neu ewch i www.arfordirpenfro.cymru/chwedlau

